

Rhif: WG39604



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – Crynodeb o'r Ymatebion

Gwelliannau'r A40 Penblewin i Groesffordd Maencoch

Tachwedd 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg
This document is also available in English

Cynnwys

1.	Y Prosiect.....	2
2.	Cyhoedduswydd i'r Ymgynghoriad	6
3.	Digwyddiadau Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd	7
4.	Adborth o'r Ymgynghoriad	10
5.	Adborth gan Randdeiliaid	24
6.	Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol.....	25
7.	Y Camau Nesaf.....	27
	Atodiad A – Dogfen ymgynghori	28
	Atodiad B – Paneli arddangos	29

1. Y Prosiect

Cyd-destun

Ym mis Rhagfyr 2004, cyhoeddodd y Gweinidog ei Adendwm at Flaenraglen Cefnffyrdd 2002 ac roedd hwn yn cynnwys dau brif gynllun i wella'r ffordd unffrwd ar gyfer yr A40 i'r gorllewin o Sanclêr. Byddai'r gwelliannau'n defnyddio'r cyfluniad 2+1 gan alluogi goddiweddyd ar y cyfeiriad dwy lôn, a gwahardd goddiweddyd yn y cyfeiriad un lôn; byddai'n cael ei gyflawni yn y camau canlynol:

1. Yr A40 Penblewin – Parc Slebets.
2. Yr A40 Llanddewi Felffre – Penblewin.

Cwblhawyd y cyntaf o'r prosiectau hyn, sef Penblewin – Parc Slebets, ym mis Mawrth 2011.

Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd Edwina Hart AC CStJ MBE, sef Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, ddatganiad ysgrifenedig yn amlinellu ei blaenoriaethau ar gyfer Trafnidiaeth. Roedd y datganiad yn cynnwys y canlynol:

“Mae Bwrdd Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau wedi pennu y dylid rhoi blaenoriaeth i wella'r A40, ac mae'n fwriad gennyf ddatblygu ymhellach y gwelliannau a gynigiwyd eisoes.”

Ar 12 Tachwedd 2014, wrth roi diweddariad ynglŷn â chau Purfa Murco yn Aberdaugleddau, gwnaeth y Gweinidog Ddatganiad llafar mewn Cyfarfod Llawn:

“O ran cysylltiadau trafndiaeth, rwyf wedi cyfarwyddo fy swyddogion i gyflymu'r rhaglen ar gyfer cyflawni gwelliannau yn Llanddewi Felffre i'r graddau mwyaf posibl.”

Ym mis Mehefin 2015, mewn datganiad ysgrifenedig ar Astudiaeth Gwella'r A40, nododd y Gweinidog: *“Fy mwriad yw bwrw ymlaen â chyflawni cynllun yr A40 Llanddewi Felffre i Benblewin cyn gynted ag y bo modd...”*

Yn 2017, fe wnaeth y rhai a fynychodd yr Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd ar gyfer Gwelliannau'r A40 Llanddewi Felffre i Benblewin fynegi eu cefnogaeth i welliannau wrth Groesffordd Maencoch.

Ym mis Awst 2018, fe wnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth, Ken Skates AC, gadarnhau'n ysgrifenedig i'r Uwch Grwner mewn ymateb i'r cwest i farwolaeth gyrrwr yn ymuno â'r A40 wrth Groesffordd Maencoch¹, y byddai ymchwiliadau'n dechrau i edrych ar wella diogelwch y gyffordd a darparu cyfleoedd mwy diogel i oddiweddyd ar hyd yr A40, sy'n cynnwys gwelliannau wrth Groesffordd Maencoch.

¹ <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2018/09/2018-0242-Response-by-Welsh-Government.pdf>

Ym mis Ionawr 2019, dechreuodd Arup (gyda chefnogaeth RML) ymchwilio i'r problemau a datblygodd atebion effeithiol posibl i fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth ar hyd yr A40 rhwng Cylchfan Penblewin a Chroesffordd Maencoch ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Cyhoeddwyd y Gorchmynion drafft a'r Datganiad Amgylcheddol ar 31 Gorffennaf 2019 ar gyfer Gwelliannau'r A40 Llanddewi Felfre i Benblewin (cynllun cyfagos).

WelTAG

Mae astudiaeth gyfunol Cam 1 a 2 yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WelTAG) wedi cael ei chynnal ac mae astudiaeth Cam 3 wrthi'n cael ei chynnal ar hyn o bryd. Mae problemau ac amcanion y Cynllun wedi cael eu pennu ac mae atebion wedi cael eu nodi, eu hadolygu a'u harfarnu. Mae'r problemau a'r amcanion yn gydnaws â'r rheiny o gynllun Gwelliannau'r A40 Llanddewi Felfre i Benblewin, sydd wedi cael eu cytuno gyda'r Grŵp Adolygu. Mae'r Grŵp Adolygu yn cynnwys Cyfarwyddwr Prosiect Llywodraeth Cymru, yn ogystal ag Asiant y Cyflogwr, y Dylunydd (Arup gyda chefnogaeth RML), a Chyngor Sir Penfro, sef yr awdurdod lleol perthnasol. Mae WelTAG yn ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn ystyried effeithiau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol.

Y problemau

Fe wnaeth yr Astudiaeth WelTAG sydd wrthi'n cael ei chynnal nodi'r problemau a restrir isod. Roedd y dystiolaeth a'r data a gasglwyd ac a ddadansoddwyd yn cynnwys: arolygon geoffisegol, arolygon ymchwiliad tir, arolygon bioamrywiaeth, cyfrifiadau traffig, deddfwriaeth a pholisi, dibynadwyedd amserau siwrneiau, darpariaeth trafndiaeth gyhoeddus, natur dymhorol data traffig, data ar ddifrifoldeb damweiniau, data economaidd-gymdeithasol a chyfyngiadau amgylcheddol.

Mae'r problemau a nodwyd fel a ganlyn:

1. Mae prif linell yr A40 a Chyffordd Croesffordd Maencoch yn is na'r safon.
2. Mae cyfleoedd cyfyngedig i oddiweddyd yn arwain at ddibynadwyedd gwael o ran amserau siwrneiau a rhwystredigaeth ymhlith gyrwyr.
3. Mae confois achlysurol o gerbydau nwyddau trwm o'r porthladdoedd fferi a cherbydau amaethyddol sy'n symud yn araf yn cyfrannu at gyfnodau o blatwnio ac amserau siwrneiau annibynadwy, a waethygir gan gyfleoedd cyfyngedig i oddiweddyd.
4. Mae amrywiadau sydyn tymhorol ym maint y traffig ar hyd yr A40 – yn enwedig yn ystod misoedd yr haf – yn arwain at draffig sy'n symud yn araf gan achosi annibynadwyedd o ran amserau siwrneiau, a waethygir gan gyfleoedd cyfyngedig i oddiweddyd.
5. Ceir llawer o gyffyrdd ffyrdd ymyl a mynedfeydd uniongyrchol i eiddo a chaeau amaethyddol oddi ar yr A40, sy'n cyfrannu at broblemau gweithredol ar hyd y ffordd.
6. Mae cymysgedd o fathau o draffig yn defnyddio'r ffordd, sy'n cyfrannu at annibynadwyedd o ran amserau siwrneiau a rhwystredigaeth ymhlith gyrwyr, symudiadau peryglus a gwrthdrawiadau difrifol.

7. Mae diffyg cysylltedd trafndiaeth gyhoeddus strategol yn Sir Benfro yn golygu'n gyffredinol y dibynnir ar y car preifat ar gyfer cysylltiadau rhyng-drefol.

Amcanion y Cynllun

Mae nifer o amcanion y Cynllun wedi cael eu datblygu a'u llywio drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid. Mae'r amcanion yn ystyried materion trafndiaeth strategol a lleol, fel a ganlyn:

- A1** Gwella gwydnwch y rhwydwaith a gwella hygyrchedd ar hyd coridor trafndiaeth y dwyrain-gorllewin er mwyn cyrraedd cyrchfannau allweddol o safbwynt cyflogaeth, cymunedau a thwristiaeth.
- A2** Gwella ffyniant a darparu gwell mynediad i dref sirol Hwlfordd, Ardal Fenter Dyfrffordd y Ddau Gleddau a phorthladdoedd Abergwaun, Aberdaugleddau a Doc Penfro yng ngorllewin Cymru.
- A3** Lleihau hollti cymunedol a chreu buddion o ran iechyd ac amwynderau.
- A4** Gwella diogelwch wrth Gyffordd Croesffordd Maencoch (gan gynnwys diogelwch canfyddedig) a lleihau nifer a difrifoldeb gwrthdrawiadau.
- A5** Hyrwyddo teithio llesol drwy feicio, marchogaeth a cherdded er mwyn cynnig cyfleoedd i bobl fyw bywydau iach.
- A6** Cyflawni Cynllun sy'n hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol ac sy'n integreiddio â'r rhwydwaith trafndiaeth lleol er mwyn cysylltu cymunedau lleol yn well â chanolfannau trafndiaeth allweddol.
- A7** Cyflawni prosiect sy'n gynaliadwy o fewn Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, gan gymryd camau i leihau neu wrthbwyso gwastraff a charbon.
- A8** Rhoi ystyriaeth ofalus i effaith trafndiaeth ar yr amgylchedd a chyflwyno gwelliannau lle bo hynny'n ymarferol.

Opsiynau'r Cynllun

O ystyried cyd-destun y prosiect a ddisgrifiwyd uchod, mae'r gwaith dylunio a datblygu wedi canolbwyntio ar ateb sydd wedi'i seilio ar briffordd. Mae hyn wedi arwain at ystyried, arfarnu ac ymgynghori ar amrywiaeth o opsiynau.

Mae opsiwn trafndiaeth gyhoeddus wedi cael ei ystyried yn lle adeiladu ffordd, gyda chynnig i gynyddu amllder bysiau. Fodd bynnag, fe'i diystyriwyd gan fod yr arfarniad yn dangos na fyddai'n mynd i'r afael â'r problemau nac yn cyflawni'r amcanion. Mae buddsoddiad a mentrau trafndiaeth gyhoeddus ehangach yn parhau i helpu i fynd i'r afael â chysylltedd lleol a rhanbarthol, a arweinir gan yr awdurdodau lleol perthnasol gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru.

Yn rhan o'r broses o ddatblygu'r dyluniad, mae opsiynau cerdded, beicio a marchogaeth yn cael eu hystyried yn unol â Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Bydd y rhain yn ffurfio rhan o'r opsiynau priffordd sy'n cael eu hystyried, gan greu mesurau ategol i'r atebion sydd wedi'u seilio ar adeiladu ffordd, a hefyd yn ceisio gwella cysylltedd ar gyfer pob dull trafndiaeth.

Diben yr ymgynghoriad

Diben yr adroddiad hwn yw disgrifio'r ymarfer ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ymgynghori â'r cyhoedd a gynhaliwyd rhwng 26 Gorffennaf 2019 ac 20 Medi 2019, a oedd yn ceisio barn ynglŷn â'r gwelliannau arfaethedig rhwng Cylchfan Penblewin a Chroesffordd Maencoch ar yr A40. Rhoddodd hyn gyfle i rannu safbwyntiau ar y canlynol:

1. Yr ateb a ffeirir cychwynnol;
2. Gwelliannau y gellid eu gwneud i'r ateb a ffeirir; a
3. Mesurau teithio llesol y gellid eu cynnwys, o bosibl.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r adborth a gafwyd ac yn amlygu camau gweithredu allweddol sy'n codi i helpu i ddatblygu'r Cynllun.

2. Cyhoeddusrwydd i'r Ymgynghoriad

Mae'r adran hon yn amlinellu'r camau a gymerwyd i roi cyhoeddusrwydd i'r gweithgareddau a'r digwyddiadau ymgynghori, gan geisio cynnwys pob grŵp o bobl gymaint â phosibl.

Cymerwyd pob cam rhesymol i wneud trefniadau cyhoeddusrwydd priodol, gan gynnwys:

- a) Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddatganiad i'r wasg i roi gwybod i'r cyhoedd am yr Ymgynghoriad ar 13 Awst.
- b) Gwnaed cyhoeddiad ynglŷn â'r ymgynghoriad ar Twitter o gyfrif Economi a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru ar 13 Awst, a rhoddwyd postiad ar gyfrif Facebook Neuadd y Frenhines (lleoliad yn Arberth) ar 30 Awst.
- c) Dosbarthwyd dogfennau ymgynghori a llythyrau eglurhaol dwyieithog â llaw yn yr ardal leol ar 23 Awst. Mae copi o'r ddogfen ymgynghori wedi'i cynnwys yn Atodiad A.
- ch) Anfonwyd negeseuon e-bost at restr ddogfennu wedi'i thargedu cyn yr arddangosfa i ymateb i'r rhai a oedd wedi rhannu eu gwybodaeth bersonol â Llywodraeth Cymru yn ystod digwyddiadau blaenorol (er mwyn cael gwybod am unrhyw ddigwyddiadau eraill a phenderfyniadau am y prosiect). Anfonwyd llythyr atgoffa cyn yr ymgynghoriad hefyd, gan gynnwys at randdeiliaid allweddol.
- d) Yn ogystal, hysbysebwyd yr ymgynghoriad yn y Western Telegraph ar 19 Awst ac yn y Tenby Observer ar 23 Awst.

3. Digwyddiadau Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd

Mae'r adran hon yn rhoi gwybodaeth fanwl am Arddangosfeydd Gwybodaeth i'r Cyhoedd blaenorol a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2019 a mis Mai 2019, a'r adborth a gafwyd gan aelodau'r cyhoedd. Mae hefyd yn rhoi manylion am y Digwyddiad Ymgynghori â'r Cyhoedd a gynhaliwyd ym mis Medi 2019.

Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd mis Ebrill 2019

Daeth 95 o bobl i'r Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd gyntaf a gynhaliwyd ym mis Ebrill 2019. Dyma'r tri opsiwn a gyflwynwyd:

1. Opsiwn 1A – Llwybr Gogleddol gyda chyffordd T groesgam;
2. Opsiwn 1B – Llwybr Gogleddol heb Gyffordd wrth Groesffordd Maencoch; ac
3. Opsiwn 2A – Llwybr Deheuol gyda chyffordd T groesgam.

Roedd yr adborth allweddol a gafwyd gan y rhai a ddaeth i'r arddangosfa yn cynnwys:

- a) Roedd 75% o'r ymatebwyr yn credu'n gryf fod angen gwelliannau rhwng Cylchfan Penblewin a thrwy Groesffordd Maencoch.
- b) Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (68%) yn cytuno â'r problemau a'r amcanion.
- c) Roedd diogelwch yn bryder allweddol wrth Groesffordd Maencoch.
- ch) Nid oedd yr ymatebwyr yn ffafrio un opsiwn yn amlwg. Roedd 17 o'r ymatebwyr o blaid Opsiwn 2, roedd 15 o'r ymatebwyr o blaid Opsiwn 1B, roedd 13 o blaid Opsiwn 1A, dewisodd 12 'Dim un o'r opsiynau / opsiwn arall' a gadawodd 3 o'r ymatebwyr eu hymateb yn wag.
- d) Roedd dewisiadau amgen neu welliannau yn cynnwys cylchfan, mesurau gostegu traffig, dileu cyffordd Croesffordd Maencoch a gwelliannau i osodiad presennol y gyffordd.

Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd mis Mai 2019

Yn dilyn yr adborth a gafwyd yn yr Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd gyntaf, datblygwyd opsiwn ychwanegol, a chynhaliwyd ymgysylltiad pellach â'r cyhoedd i'w brofi.

Daeth 170 o bobl i'r ail Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd ym mis Mai 2019 lle y cyflwynwyd pedwar opsiwn (y tri yr ymgynghorwyd arnynt ym mis Ebrill yn ogystal â'r *opsiwn ychwanegol* newydd):

1. Opsiwn 1A – Llwybr Gogleddol gyda chyffordd T groesgam.
2. Opsiwn 1B – Llwybr Gogleddol heb Gyffordd wrth Groesffordd Maencoch;
3. Opsiwn 2A – Llwybr Deheuol gyda chyffordd T groesgam; ac
4. *Opsiwn 2B – Llwybr Deheuol heb Gyffordd wrth Groesffordd Maencoch.*

Roedd yr adborth allweddol a gafwyd gan y rhai a ddaeth i'r arddangosfa yn cynnwys:

- a) Roedd 89% o'r ymatebwyr yn credu'n gryf fod angen gwelliannau rhwng Cylchfan Penblewin a thrwy Groesffordd Maencoch.
- b) Roedd mwyafrif yr ymatebwyr (79%) yn cytuno â'r problemau a'r amcanion.
- c) Roedd diogelwch yn bryder allweddol wrth Groesffordd Maencoch.
- ch) Roedd 72 o'r ymatebwyr yn ffafrio Opsiwn 2B, roedd 25 o'r ymatebwyr yn ffafrio Opsiwn 1B, roedd 15 o'r ymatebwyr yn ffafrio Opsiwn 1A, roedd 13 o'r ymatebwyr yn ffafrio Opsiwn 2A, dewisodd 3 o'r ymatebwyr Opsiwn 1A neu 2A, dewisodd 5 o'r ymatebwyr Opsiwn 1B neu 2B, ac roedd 7 o'r ymatebwyr wedi dewis Dim opsiwn neu wedi gadael yr ymateb yn wag.
- d) Roedd dewisiadau amgen neu welliannau yn cynnwys cyffordd o fath gwahanol, gan gynnwys cylchfan neu ffordd ymadael/ymuno; terfyn cyflymder a mesurau gostegu traffig; gwelliannau i'r gyffordd gyfredol a'r A40 bresennol; ac ystyried trafndiaeth gyhoeddus.

Rhoddir gwybodaeth ychwanegol, gan gynnwys lluniadau o'r opsiynau uchod, yn y Ddogfen Ymgynghori; mae copi ohoni wedi'i gynnwys yn **Atodiad A**.

Digwyddiad Ymgynghori â'r Cyhoedd mis Medi 2019

Roedd yr ymgynghoriad diweddaraf yn cynnwys Digwyddiad Ymgynghori a gynhaliwyd yn Neuadd y Frenhines, y Stryd Fawr, Arberth, SA67 7AS ar 2 Medi 2019 rhwng 12pm ac 8pm.

Dewiswyd y lleoliad hwn oherwydd ei fod mewn man priodol ac yn rhoi mynediad i'r cyhoedd, gyda chysylltedd addas trwy gerdded, beicio, trafndiaeth gyhoeddus a char. Trefnwyd amser y digwyddiadau i gynnwys oriau ar ôl gwaith er mwyn helpu i gyrraedd pob grŵp o bobl.

Paratowyd cyfres o naw panel arddangos dwyieithog yn mesur 2m wrth 1m ar gyfer yr Arddangosfeydd Gwybodaeth i'r Cyhoedd, fel y rhestrir isod:

1. Bwrdd Croesawu.
2. Y Broblem.
3. Amcanion y Cynllun.
4. Cynllun Cyfyngiadau.
5. Opsiwn Llwybr ac Opsiwn Arfarnu 1.
6. Opsiwn Llwybr ac Opsiwn Arfarnu 2.
7. Arfarnu'r Opsiynau.
8. Beth sy'n Digwydd Nesaf?
9. Diolch – Manylion Cyswllt.

Mae copïau o'r paneli arddangos wedi'u cynnwys yn **Atodiad B**

Roedd yr aelodau staff canlynol o dîm y prosiect yn bresennol yn y digwyddiad ymgynghori:

1. Llywodraeth Cymru – Peiriannydd y Prosiect.
2. Arup – cynrychiolwyr o'r tîm priffyrdd, y tîm dylunio priffyrdd a'r tîm cynllunio.
3. RML Consulting – arweinydd y tîm dylunio amgylcheddol.
4. MJ Gallimore Consulting – Swyddog Cyswllt â'r Cyhoedd.
5. Arcadis – cynrychiolydd o dîm a thîm rheoli prosiect Asiant y Cyflogwr.

Roedd saith aelod o dîm y prosiect a oedd yn cynrychioli Llywodraeth Cymru yn bresennol yn y digwyddiad ymgynghori. Roeddent ar gael i esbonio'r cynigion, ateb cwestiynau ac ystyried unrhyw bryderon a godwyd gan y bobl a ddaeth i'r ymgynghoriad.

Roedd dau aelod o dîm y prosiect yn y digwyddiad ymgynghori yn siarad Cymraeg. Mynegwyd rhywfaint o flaenoriaeth dros gyfathrebu yn Gymraeg yn ystod y digwyddiadau. Roedd yr holl ddeunyddiau ymgynghori a chyhoedduswyd yn ddwyieithog.

Defnyddiwyd cofrestr yn lleoliad yr ymgynghoriad i gofnodi cyfanswm nifer y bobl a ddaeth i'r ymgynghoriad ac i gasglu manylion cyswllt ar gyfer y dyfodol i helpu pobl i barhau i gymryd rhan os oeddent yn dymuno. Dangosir y manylion presenoldeb yn y tabl isod.

Dyddiad	Lleoliad	Amserau Agor	Nifer yn Bresennol	Presenoldeb / Awr
2 Medi 2019	Neuadd y Frenhines, y Stryd Fawr, Arberth	12pm - 8pm	108	13.5

4. Adborth o'r Ymgynghoriad

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r adborth a gafwyd yn ystod yr Ymgynghoriad Cyhoeddus.

Anogwyd unigolion a sefydliadau i ymateb i gwestiynau a ofynnwyd ar ffurflen ymateb. Gellid anfon ymatebion at Lywodraeth Cymru trwy'r cyfeiriad rhabdost, trwy neges e-bost at y cyfeiriad e-bost a roddwyd ar gyfer y prosiect, neu drwy gyflwyno ymateb ar-lein gan ddefnyddio gwefan Llywodraeth Cymru (rhoddwyd y manylion).

Lluniwyd y cwestiynau i geisio adborth ar yr opsiynau ac i helpu i lywio'r gwaith dylunio a datblygu, gyda'r nod o gefnogi ymgysylltiad ystyrion a allai helpu i godi unrhyw faterion, pryderon neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau. Cyflwynwyd cwestiwn agored hefyd i hwyluso unrhyw sylwadau eraill, gan ganiatáu hyblygrwydd i bawb.

Roedd aelodau tîm y prosiect wedi annog y rhai a ddaeth i'r digwyddiad ymgynghori i gyflwyno eu hymatebion fel y gallai'r adborth gael ei gasglu i helpu i ddadansoddi'r ymgynghoriad ac adrodd arno.

Nid oedd ymatebion i'r ymgynghoriad wedi cael eu cyflwyno i'r staff yn y digwyddiad ymgynghori, ond llenwodd y staff daflenni cofnod llafar i gofnodi ceisiadau am wybodaeth a materion neu bwyntiau a godwyd. Diben hyn oedd helpu i hwyluso unigolion neu sefydliadau i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad, a helpu i lywio'r gwaith dylunio a datblygu parhaus.

Cafwyd cyfanswm o 81 o ymatebion yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd y rhain yn cynnwys 43 o arolygon a gwblhawyd ar-lein, 17 o arolygon ar-lein a gwblhawyd yn rhannol, 13 o ymatebion e-bost ac wyth ymateb ar gopi papur, a dderbyniwyd trwy'r post.

Ni chafwyd yr un ymateb Cymraeg, er bod yr holiadur yn ddwyieithog ac yn caniatáu ar gyfer ymateb yn Gymraeg.

Cynhaliwyd diwydrwydd dyladwy i osgoi'r posibilrwydd o ddyblygu ymatebion, ac felly mae perygl unrhyw ddyblygu yn isel iawn ac ni fyddai'n cael effaith arwyddocaol ar y canlyniadau. Rhoddwyd cod i'r ymatebion wrth ddadansoddi'r ymgynghoriad er mwyn i themâu a phynciau allweddol i'w hystyried gael eu priodoli i sylwadau. Roedd hyn yn ddefnyddiol hefyd gan ei fod yn dangos pa mor aml y gwnaed pwynt penodol. Mae'n bwysig nodi bod gwallau dynol yn bosibl i ryw raddau wrth godio, ond trwy ddiwydrwydd dyladwy, cymerwyd pob cam rhesymol i leihau perygl cyfrif ddwywaith neu briodoli'n anghywir trwy weithdrefnau gwirio cadarn.

Yr adborth a gafwyd

Dadansoddwyd yr adborth un cwestiwn ar y tro. Roedd y rhan fwyaf o'r cwestiynau'n ansoddol, felly mae'r dadansoddiad isod wedi'i strwythuro yn ôl y themâu / pynciau allweddol a'r pwyntiau a godwyd gan yr ymatebwyr.

Cwestiwn 1: O ystyried canlyniad ein harfarniadau cychwynol ac adborth a ddarparwyd gan y cyhoedd yn yr Arddangosfeydd Gwybodaeth i'r Cyhoedd, ystyrir mai Opsiwn 2B yw'r ateb a ffeirir tebygol. A oes unrhyw sylwadau gennych ynglŷn â'r ateb hwn?

Crynohoir yr ymatebion i Gwestiwn 1 yn y tabl isod.

Sylw	Nifer
Effeithiau cadarnhaol/cefnogaeth	
Opsiwn 2B yw'r opsiwn a ffeirir. Mae'r rhesymau'n ymwneud â gwella diogelwch, cefnogaeth i ddileu cyffordd Croesffordd Maencoch, y cyfaddawd gorau o ran cydbwysu amrywiaeth o anghenion a galwadau sy'n cystadlu yn erbyn ei gilydd, gwella llif traffig, yr ateb gorau yn gyffredinol, gwella cysylltedd rhwng y gogledd a'r de. Dywedodd un ymatebwr ei fod yn cytuno yn amodol ar gadarnhad na fyddai'r gwaith yn niweidio unrhyw safleoedd archaeolegol neu naturiol sensitif, a dywedodd nifer o ymatebwyr eraill er eu bod yn ffafrio Opsiwn 2B, cynigir rhai newidiadau i'r dyluniad presennol.	32
Gobeithio y bydd yr opsiwn hwn yn cael llai o effaith weledol / dylai fod yn llai gweladwy na'r opsiynau gogleddol.	2
Mae Opsiwn 2B yn osgoi'r peryglon wrth Groesffordd Maencoch.	1
Mae mygdarthau a sŵn o'r ffordd bresennol yn effeithio ar iechyd ar hyn o bryd, a gobeithir y bydd y gwelliannau i'r ffordd yn cael effaith fuddiol.	1
Opsiynau Amgen	
Mae angen cysylltiad rhwng Redstone Road a'r A40 tuag at Hwlfordd. Roedd sylwadau'n cynnwys petai Opsiwn 2B yn symud ymlaen, dylai ffyrdd ymuno/ymadael gael eu cynnwys, oherwydd heb y cysylltiad hwn, bydd problemau traffig yn Arberth.	6
Ffafrio 1B ond mae 2B yn dda / ffafrio 1B ond mae 2B yn well na 2A.	2
Mae angen gweithredu ar unwaith wrth Groesffordd Maencoch i ymateb i'r mater diogelwch, megis ailgyflwyno terfyn cyflymder, oherwydd y bydd unrhyw welliannau i'r ffordd yn cymryd amser.	2
Byddai tro cyffordd yn yr ardal rhwng Sodston House Lodge a Fferm Maencoch yn atal symudiadau dyblu'n ôl.	2
Lliniaru problemau traffig posibl yn Arberth trwy gyfyngu ar barcio ar y stryd fawr yn ystod oriau brig.	1
Dylai traffig fod yn arafu yn hytrach na chyflymu – nid oes rheswm da dros gyfleoedd goddiweddyd yn y lleoliad hwn.	1
Mae angen i'r cynllun gael ei ddatblygu gan roi ystyriaeth i'r hyn sydd orau i Arberth ac nid i ymwelwyr sy'n teithio tua'r gorllewin; gwella ffyrdd mynediad ac ymadael mwy diogel trwy Opsiynau 1A neu 2A.	1
Mae 2A yn well.	1
Mae angen cynllun arwyddion clir i atal lorïau rhag teithio trwy Arberth.	1
Gwrthwynebu Opsiwn 2B yn gryf ac yn credu bod yr opsiynau eraill yn annerbyniol hefyd.	1
Ffordd ddeuol rhwng Hwlfordd a Sanclêr.	1
Mae angen meddwl am ddyluniad cylchfan Penblewin; mae pryder y byddai'r mynediad oddi ar y gylchfan yn creu cyfres o gaeau bach.	1

Sylw	Nifer
Mae angen cynnal astudiaeth ddraenio gynhwysfawr a sefydlu cynlluniau i sicrhau na fydd newidiadau i ddraenio naturiol o ddŵr presennol yn cael effaith niweidiol ar eiddo lleol.	1
Mae'n rhaid cynnal arolwg sŵn parhaus a chynhwysfawr wrth eiddo lleol. Mae modelu sŵn wedi cael ei wneud, ond nid yw arolwg monitro sŵn wedi cael ei gynnal wrth yr eiddo.	1
Os mabwysiadir yr opsiwn hwn, dylid cynyddu'r pellter rhwng y ffordd a'r cartref gofal a dylai mesurau lliniaru sŵn ac effaith weledol fod ar waith.	1
Holi pam nad yw llwybr gogleddol yn cael ei ddewis; er y cytunir bod safleoedd hanesyddol i'r gogledd yn bwysig, ystyrir eu bod yn fach a chredir y gallai'r ffordd gael ei symud heb fawr o gost. Hefyd, ystyrir bod y tir i'r gogledd yn cael ei ddefnyddio yn ystod misoedd yr haf yn unig.	1
Effeithiau Niweidiol Posibl	
Pryder ynghylch cynnydd mewn traffig trwy Arberth, lle y ceir problemau eisoes ar adegau, ac ar hyd yr A478 lle yr ystyrir ei bod eisoes yn beryglus ac yn brysur. Roedd sylwadau'n cynnwys pryder ynghylch cerbydau mawr yn teithio trwy'r dref, ac o fewn tref nad yw wedi'i chynllunio ar gyfer traffig trwm.	15
Byddai rhai teithiau'n gorfod bod yn hwy, gan achosi costau ac amser teithio ychwanegol.	5
Pryder ynghylch effeithiau sŵn.	5
Pryder ynghylch yr effaith ar amgylchedd preswylwyr lleol a phreswylwyr cartref gofal.	5
Byddai dileu cyffordd Croesffordd Maencoch yn cyfyngu ar symudiadau e.e. i'r gorllewin.	4
Effaith ar fusnesau – busnes gwely a brecwast lleol gan y byddai'r ffordd yn effeithio ar natur y lleoliad a'r llonyddwch/effaith ar hygyrchedd a bydd yn gweithredu fel ataliaeth/effeithio ar fasnach sy'n mynd heibio.	4
Pryder ynghylch yr effaith ar werthoedd eiddo a phroblemau posibl wrth werthu yn y dyfodol.	3
Byddai'r cynllun yn achosi gofid ac annifyrrwch.	3
Yr unig bryder yw / nad yw golygfeydd yn cael eu colli a'r agoswydd i'r ffordd.	3
Effaith negyddol ar y cartref gofal.	2
Pryder ynghylch yr effaith y byddai'r cynllun yn ei chael ar fwynhad yn yr ardd.	2
Pryder ynghylch yr effaith ar lygredd baw.	2
Byddai'r cartref yn dod yn ynys gyda dwy brif ffordd ar bob ochr iddo.	2
Nid yw'n cyfeirio traffig i ffordd oddi wrth ddeiliaid tai.	2
Byddai'r opsiynau i'r gogledd yn cael llai o effaith.	2
Effeithiau niweidiol tymor hir ar allu Arberth i dyfu pe byddai angen ehangu adeiladu a thai.	2
Pryder ynghylch yr effaith ar lygredd golau.	2
Pryder ynghylch risgiau iechyd a diogelwch ar gyfer gweithwyr adeiladu a'r cyhoedd/effaith gronynnau.	2
Gallai fod yn lletchwith i'r rhai sy'n byw gerllaw.	1

Sylw	Nifer
Pryder ynghylch yr effaith ar ansawdd aer.	1
Pryder ynghylch yr effaith ar lwch a mwd.	1
Mae Arberth yn ehangu tua'r gogledd, felly mae'r opsiwn hwn yn debygol o gael effaith waeth na'r opsiynau gogleddol.	1
Arall	
Nid yw'r amcanion yn sôn am Arberth.	2
Mae gan Opsiynau 1B a 2B yr un sgorau.	2
Mae gormod o bwyslais yn cael ei roi ar wella hygyrchedd ar hyd yr A40, nid y materion perthnasol sy'n ymwneud â Chroesffordd Maencoch.	1
Mae'r tri chyfarfod a fynychwyd wedi cynnig llawer o wybodaeth ac wedi bod yn fywiog ar adegau.	1
Mae'r Cynllun Datblygu Lleol wedi canolbwyntio twf economaidd ar yr ardal hon er mwyn atal cerbydau trwm rhag gorfod teithio trwy Arberth – a ymgynghorwyd â Chyngor Sir Penfro?	1
Mae'n ymddangos yn amlwg mai diben y prosiect hwn yw cynyddu llif traffig ar yr A40 ar draul y gymuned leol.	1
Synnu bod opsiynau wedi cael eu diystyru a'u cynnig ar gyfer ymgynghoriad cyn i arolygon traffig digonol gael eu cynnal.	1
Mae Arberth yn derbyn mwy o ymwelwyr na Hwlffordd, sydd wedi dirywio yn ystod y blynyddoedd diweddar.	1
Byddai'n ddefnyddiol petai gwybodaeth yn cael ei chyhoeddi ynghylch faint o bobl a ymatebodd i'r cwestiwn ynglŷn â chadw'r gyffordd ai peidio, a faint o'r bobl hynny oedd yn byw yn y dref neu'r pentrefi amgylchynol.	1
Cytuno y byddai'r holl opsiynau'n gwella diogelwch, ond yn anghytuno y bydd Opsiwn 2B yn darparu mwy o fudd o ganlyniad i fwy o gyfleoedd i oddiweddyd.	1
Efallai y dylid cynnal arolwg i weld faint o geir sydd wedi torri'r terfyn cyflymder rhwng Pont Canaston a fferm Clarkenhill.	1
Faint o droseddau traffig sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diweddar ers i gynllun gwella'r A40 Penblewin – Ffordd Parc Slebets gael ei adeiladu?	1
Pryderu ynghylch pam mae Opsiwn 2B yn cael ei ffafrio er nad oedd yn yr ymgynghoriadau gwreiddiol.	1
Mae Opsiwn 2B yn cael effaith uniongyrchol ar eiddo, ond mae gwelliannau ar y ffordd bresennol wedi cael eu diystyru o ganlyniad i'r effaith ar eiddo.	1
Ataliodd Cynlluniad Cymru gynllun yr M4 oherwydd effeithiau amgylcheddol, gan gredu ei fod yn blaenoriaethu elw ar draul pobl.	1

I grynhoi, dyma'r pwyntiau allweddol a wnaed wrth ymateb i Gwestiwn 1:

1. Mae nifer fawr o'r ymatebwyr yn datgan eu cefnogaeth yn benodol i Opsiwn 2B fel yr opsiwn a ffeirir, ac mae llawer o'r sylwadau'n cyfeirio at y gwelliannau i ddiogelwch.
2. Mae llawer o'r ymatebwyr yn pryderu ynglŷn â'r effaith y byddai Opsiwn 2B yn ei chael ar draffig trwy Arberth, gyda nifer o sylwadau'n nodi bod y sefyllfa bresennol yn achosi problemau ac y bydd yn cael ei gwaethygu pe na byddai cyffordd wrth Groesffordd Maencoch. Mae nifer o'r ymatebwyr hefyd yn mynegi pryderon ynglŷn â'r cynnydd mewn amser teithio ar gyfer rhai siwrneiau heb gyffordd wrth Groesffordd Maencoch.
3. Dywedodd ambell ymatebwr fod angen cadw cysylltiad o ryw fath rhwng Redstone Road a'r A40 tuag at Hwlfordd.
4. Mae'n amlwg bod pryder ynglŷn â'r effaith ar eiddo yn agos i Opsiwn 2B, a chyfeiriwyd at yr effaith ar werth eiddo, yr amgylchedd ac amwynder. Mae pryder hefyd ynglŷn â'r effeithiau ar Gartref Gofal Blaenmarlais.
5. Mynegodd ambell ymatebwr bryder ynglŷn â'r effaith ar yr amgylchedd, gan gynnwys effaith sŵn a llygredd aer.
6. Mynegwyd pryder hefyd ynglŷn â'r effaith ar fusnesau yn y cyffiniau o ganlyniad i effeithiau niweidiol ar siwrneiau a hefyd yr effaith niweidiol ar amwynder ar gyfer busnes gwely a brecwast lleol.
7. Nododd dau ymatebwr yn benodol hefyd y dylai'r cynllun ganolbwyntio mwy ar Arberth na'r amcanion strategol.

Cwestiwn 2: Mae rhai pryderon wedi'u codi gydag Opsiwn 2B (gweler yr adran 'yr ateb a ffefrir' yn y ddogfen ymgynghori). Yn eich barn chi, a oes unrhyw welliannau y gellid eu gwneud i Opsiwn 2B i fynd i'r afael â'r pryderon hyn?

Crynohoir yr ymatebion i Gwestiwn 2 yn y tabl isod.

Sylw	Nifer
Gwelliannau / dewisiadau amgen	
Darparu mynediad i'r A40 i'r gogledd o Arberth o fewn cyffiniau Croesffordd Maencoch / trwy ffordd ymuno ac ymadael neu gylchfan / tuag at Hwlfordd / i'r dwyrain a'r gorllewin. Roedd sylwadau'n cynnwys y byddai'r cynnig presennol yn achosi problemau traffig yn Arberth ac yn lleihau cysylltedd i bobl leol a busnesau; a holwyd pam nad yw cylchfan arall yn cael ei hystyried gan fod rhai gerllaw ac y gallai hyn ddileu damweiniau a chynnal mynediad i'r ystad ddiwydiannol.	23
Arwyddion digonol ar gyfer llwybrau i gerbydau mwy o faint a thuag at fusnesau lleol.	5
Dylid darparu ar gyfer traffig trwy dro cyffordd rhwng Sodston House Lodge a Fferm Maencoch er mwyn osgoi symudiadau dyblu'n ôl a thraffig diangen.	3
Llwybr gogleddol.	2
Mae creu cyffyrdd siarp trwy'r aliniad newydd yn debygol o arwain at sefyllfaoedd peryglus. Mae'n debygol y bydd pryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd yn drech na manteision hwyluso llif traffig Hwlfordd / Arberth.	1
Cyffordd groesgam neu gylchfan.	1
Cilfannau.	1
Ffefrir Opsiwn 2A.	1
Dylunio'r gyffordd a'r drosbont i fod yn ddigon llydan ar gyfer lorïau cymalog, gan ddileu'r angen i deithio trwy Arberth.	1
Byddai unrhyw welliant yn ddrud ac efallai na fyddai modd ei gyflawni. Gellid gwneud y B4314 yn fwy llydan neu wella parcio yn Arberth, ond byddai'n well cadw'r gyffordd.	1
Adeiladu ffordd ar y lefel ymarferol isaf gyda byndiau a/neu sgriniau acwstig lle y bo'r angen i leihau sŵn ac effeithiau gweledol.	1
Ailalinio Redstone Road fel ei bod yn troi o amgylch i ymuno â'r A40 bresennol, ond yn rhannu pryderon y gallai hyn gynyddu cyflymder.	1
Cyfyngu ar barcio yng nghanol y dref.	1
Dylai'r colofnau rhesog ar y bont fod 1.8m o leiaf er mwyn darparu'n ddiogel ar gyfer ceffylau.	1
Ffordd ddeuol.	1
Synnu bod y cynllun yn dod i ben wrth Barc Jacobs gan fod hyn yn gadael rhan gymharol fer o ffordd heb ei gwella.	1
Byddai angen mesurau i wella llif traffig pe byddai'n cael ei weithredu.	1
Pryderon eraill	
Pryder ynghylch effaith cerbydau mawr sy'n teithio trwy Arberth, lle y ceir problemau eisoes, gan gynnwys oherwydd y strydoedd cul a pharcio wrth ymyl y ffordd.	3

Sylw	Nifer
Y pellteroedd teithio hwy / byddai'n cynyddu allyriadau ac nid yw'n ymddangos bod modd lliniaru hyn. Dyma un o'r rhesymau dros wrthwynebu.	2
Pryder ynghylch sŵn ac effaith weledol – croesawu syniadau fel plannu coed.	1
Er na fyddai gwasanaethau bws yn cael eu gwyro, ni fyddai'r cynllun yn darparu unrhyw fudd a byddai'n rhoi gwasanaethau dan fwy o anfantais o gymharu â theithio mewn ceir preifat, gan arwain at golli cwsmeriaeth o bosibl. Dyma un o'r rhesymau dros wrthwynebu.	1
Effaith drychinebus ar Arberth trwy ddileu mynediad a chyfyngu ar allu'r dref i ehangu.	1
Dim pryderon/parod i dderbyn gwyradau	
Parod i dderbyn gwyradau er mwyn darparu cyffordd fwy diogel.	3
Nid wyf yn credu y byddai'r opsiwn yn cael effaith negyddol ar draffig yn Arberth gan fod cerbydau mawr yn gallu defnyddio cyffordd yr A40 o hyd, hyd yn oed os yw'n golygu siwrneiau ychydig yn hirach.	2
Nid wyf yn credu y bydd yn effeithio ar wasanaethau bws.	2
Nid wyf yn gweld sut y byddai'r opsiwn hwn yn cael effaith negyddol ar Arberth, fel y mae rhai yn ei ofni. Ni fyddai dileu'r gyffordd yn fy ngorfodi i yrru ar draws Arberth; rwyf eisoes yn osgoi'r stryd fawr, os oes modd, oherwydd problemau traffig / Nid wyf yn credu bod pryderon posibl yn ddifrifol nac yn gredadwy.	2
Nid wyf yn siŵr beth yw'r ffordd orau o ddatrys materion yn ymwneud â mynediad i rai eiddo a busnesau lleol, ond ni fyddwn yn disgwyl effaith fawr ar lifoedd traffig trwy Arberth gan fod llwybrau gwell eisoes ar gael.	1
Nid yw cau un o'r tri llwybr i Arberth yn fater mawr.	1
Nid oes angen unrhyw ddiwygiadau.	1
Arall	
Na.	4
Mae'r cynllun yn bendrwm gan ei fod yn bwriadu dileu cyffordd Croesffordd Maencoch.	1
Mae perchenogion busnes o blaid, ac eto mae safbwyntiau preswylwyr wedi cael eu hanwybyddu.	1

I grynhoi, dyma'r ymatebion allweddol i Gwestiwn 2:

1. Hoffai nifer fawr o'r ymatebwyr i Opsiwn 2B gynnwys cysylltiad rhwng Redstone Road a'r A40 newydd e.e. trwy ffordd ymuno/ymadael orllewinol neu gyffordd sy'n darparu mynediad i'r dwyrain a'r gorllewin.
2. Awgrymodd llawer o'r ymatebwyr arwyddion da, er mwyn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd cerbydau mawr yn teithio trwy'r A40 yn hytrach nag ar hyd yr A478 trwy Arberth. Byddai arwyddion da hefyd yn gwneud busnesau lleol yn fwy amlwg.
3. Mae awgrymiadau eraill ynglŷn â chyffordd yn cynnwys darparu cyffordd rhwng Sodston House Lodge a Fferm Maencoch, a darparu cyffordd groesgam neu gylchfan yn lle cyffordd Croesffordd Maencoch.

Cwestiwn 3: Pa ddarpariaeth Teithio Llesol (cerdded, beicio, marchogaeth) fydddech chi'n dymuno ei gweld yn cael ei hymgorffori yn Opsiwn 2B?

Crynhoir yr ymatebion i Gwestiwn 3 yn y tabl isod.

Sylw	Nifer
Gwelliannau	
Wedi mynegi cefnogaeth yn benodol i welliannau ar gyfer beicio. Mae sylwadau'n cynnwys ymgorffori llwybrau beicio yn yr A40 / A478 bresennol ac ailwynebu Redstone Road i gael gwared ar dyllau sy'n anniogel iawn i feicwyr.	30
Wedi mynegi cefnogaeth yn benodol i welliannau ar gyfer cerdded. Mae sylwadau'n cynnwys darparu llwybr troed/beicio rhwng Arberth a gogledd ffin yr Landsger; ffordd gylchol rhwng Arberth a Phenblewin; darpariaeth ar hyd yr hen A40 a'r A478; llwybrau troed â goleuadau da; a throi tir sy'n weddill yn llwybrau cerdded neu ardaloedd parc lle y bo'n bosibl.	25
Wedi mynegi cefnogaeth yn benodol i welliannau ar gyfer marchogaeth. Mae sylwadau'n cynnwys cysylltu rhannau gogleddol a deheuol yr A40 trwy llwybrau ceffylau, a llwybr ceffylau ar wahân sy'n rhedeg yn gyfochrog â'r A40.	10
Dylai'r bont arfaethedig fod yn llydan e.e. i ddarparu digon o le ar gyfer cerddwyr, pobl sy'n mynd â chŵn am dro, bygis, beiciau a sgwteri anabled. Byddai angen colofnau rhesog 1.8m o leiaf ar draws y bont ar gyfer marchogaeth.	3
Lleihau terfynau cyflymder e.e. ar yr hen A40 / i barth 30mya gorfodol ac 20mya yn Arberth / lleihau cyflymder traffig wrth Groesffordd Maencoch.	3
Darparu ar gyfer pobl sy'n llai symudol a chadeiriau olwyn modur, gan gynnwys gwella arwynebau a darparu graddiant priodol a goleuadau da.	1
Cynnal a chadw/creu darpariaeth teithio llesol ar hyd y rhan o'r A40 sy'n cael ei hosgoi.	1
Sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i wneud Croesffordd Maencoch mor ddiogel â phosibl i holl ddefnyddwyr y ffordd.	1
Ardal barc gyda llyn, gwarchodfa natur ac ystafelloedd te.	1
Llwybr bws ar hyd y B4313 o Arberth i Abergwaun trwy Faenclochog.	1
Gallai'r arian ar gyfer y prosiect hwn gael ei wario'n well ar wella trafndiaeth gyhoeddus, llwybrau beicio ac ati.	1
Y sefyllfa bresennol	
Nid yw ardal yr A40 yn ddiogel i ddefnyddwyr teithio llesol ar hyn o bryd.	1
Nid oes llwybrau beicio diogel o fewn radiws pum milltir.	1
Mae llwybrau troed i'r gogledd o Arberth yn gul iawn ac nid ydynt yn addas.	1
Mae'n beryglus iawn croesi'r A40 ar hyn o bryd – rydych yn mentro'ch bywyd.	1
Sylwadau ar Opsiwn 2B	
Bydd dileu'r groesfan yn caniatáu symudiadau teithio llesol mwy diogel.	4
Tybio y byddai darpariaeth teithio llesol yn cael ei chreu ar yr hen ffordd.	1
Y bont newydd yw'r ddadl gryfaf o blaid Opsiynau 1B a 2B. Mae'r buddion yn ymddangos yn fach o ganlyniad i'r diffyg galw am deithio llesol ar y B4313 i'r gogledd o Groesffordd Maencoch.	1

Sylw	Nifer
Mae cynigion Opsiwn 2B eisoes yn cynnwys darpariaeth gyfyngedig ar gyfer cyfleusterau teithio llesol. Ni fyddai'r un o'r opsiynau yn cyflawni gwelliannau arwyddocaol.	1
Pryderon / yn erbyn gwelliannau teithio llesol	
Nid wyf yn gweld sut y gellir cynnwys gwelliannau teithio llesol yn y cynllun.	3
Nid wyf o blaid creu llwybrau beicio newydd gan fod y rhan fwyaf o feicwyr yn parhau i ddefnyddio'r ffyrdd sut bynnag, felly byddai'n wastraff adnoddau.	1
Byddai darpariaeth teithio llesol yn wastraff lle ac nid oes digon o bobl o gwmpas ar gyfer darpariaeth o'r fath.	1
Na, gan fod digon o le yng nghefn gwlad ar gyfer hyn.	1
Nid wyf yn credu bod marchogaeth yn opsiwn o ganlyniad i gyflymder traffig a lorïau enfawr ar Redstone Road.	1
Arall	
Dim / na.	4
Dylai integreiddio â gwelliannau teithio llesol eraill sydd wedi'u cynllunio.	2
Nid yw'n ymddangos bod trafndiaeth gyhoeddus yn rhan o'r opsiynau.	1

I grynhoi, dyma'r pwyntiau allweddol a godwyd wrth ymateb i Gwestiwn 3:

5. Mae'n amlwg bod cefnogaeth gyffredinol i welliannau beicio, cerdded a marchogaeth, gan gynnwys yr awgrymiadau canlynol:
 1. Cynnwys darpariaeth teithio llesol ar hyd yr A40 bresennol.
 2. Ailwynebu tyllau.
 3. Darparu mwy o lwybrau cerdded.
 4. Darparu llwybr ceffylau ar wahân.
 5. Sicrhau bod y bont arfaethedig yn ddigon llydan ar gyfer teithio llesol.
 6. Lleihau terfynau cyflymder ar yr A40 bresennol a thrwy Arberth.
 7. Gwelliannau wedi'u hanelu at bobl sydd â namau symudedd.
 8. Bydd Opsiwn 2B yn darparu gwelliannau ar gyfer defnyddwyr teithio llesol e.e. trwy ddileu cyffordd Croesffordd Maencoch.
 9. Ddim yn gweld sut y gellid cynnwys gwelliannau i deithio llesol.
 10. Dylai gwelliannau integreiddio â gwelliannau teithio llesol eraill sydd wedi'u cynllunio yn yr ardal.

Cwestiwn 4: A oes unrhyw sylwadau pellach gennych ar Opsiwn 2B?

Crynohoir yr ymatebion i Gwestiwn 4 yn y tabl isod.

Sylw	Nifer
Effeithiau cadarnhaol/cefnogaeth	
Opsiwn 2B yw'r opsiwn gorau / a ffefrir / rhesymol.	9
Cefnogaeth i ddim cyffordd wrth Groesffordd Maencoch.	5
Awydd i'r gwaith ddechrau cyn gynted â phosibl.	5
Byddai'r cynigion yn darparu amgylchedd mwy diogel e.e. ar gyfer preswylwyr y cartref gofal lleol sy'n gallu crwydro ar yr A40 yn haws ar hyn o bryd; ar gyfer beicwyr.	2
Gallai'r cynigion wella traffig yn Arberth oherwydd byddai pobl sy'n teithio i'r gogledd o'r A40 o gyfeiriad Arberth yn fwy tebygol o ddefnyddio'r drosbont, gan na fyddai ofn ciwio mwyach.	1
Byddem yn dod i arfer â pha gynigion bynnag sy'n cael eu rhoi ar waith.	1
Effeithiau niweidiol	
Pryder ynghylch effaith y cynigion ar y traffig yn Arberth / ystyriwch yr effaith os gwelwch yn dda / mae profi problemau traffig eisoes yn bodoli yn Arberth.	5
Byddai Opsiwn 2B yn cael effeithiau niweidiol ar yr amgylchedd, gan gynnwys effeithiau tirweddol a gweledol o ganlyniad i golli coetir ac argloddiau a thrychiadau / effeithiau bioamrywiaeth o ganlyniad i'r difrod i goetir llydanddail / ni fyddai hwyluso llifoedd traffig cyflymach yn lleihau allyriadau carbon.	3
Byddai effaith negyddol ar rai siwrneiau e.e. siwrneiau hirach na fyddent yn arbed allyriadau carbon / byddai llai o gysylltedd lleol yn effeithio arnaf i fel preswlydd a pherchennog busnes / mwy o danwydd ac amser teithio.	3
Mae'r cynllun yn canolbwyntio gormod ar yrwyr e.e. yn hytrach na thrafnidiaeth gyhoeddus.	2
Bydd darpariaeth ar gyfer goddiweddyd yn gwneud y ffordd yn fwy peryglus ac yn cynyddu nifer y damweiniau.	1
Byddai'r ffordd newydd yn ddrud ac yn lleihau'r cronfeydd sydd ar gael.	1
Gwrthwynebu ar sail pryderon amgylcheddol ac iechyd.	1
Opsiynau amgen	
Cefnogi'r syniad o ffordd ymuno ac ymadael / neu gylchfan o Groesffordd Maencoch tua'r gorllewin / tua'r gorllewin a'r dwyrain / byddai'n arbed tanwydd ac amser teithio.	3
Arafu traffig wrth ddynesu at y gyffordd.	2
Cyfyngu'r amcanion i wella diogelwch wrth Groesffordd Maencoch, gan weithredu mewn ffordd sy'n gyfrifol yn fyd-eang trwy leihau'r effaith ar yr amgylchedd byd-eang i'r eithaf, a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd lleol i'r eithaf. Byddai hyn yn golygu y gellid ailystyried yr opsiwn ar gyfer cylchfan neu gyffordd groesgam, a fyddai'n osgoi'r rhan fwyaf o'r effeithiau ar fioamrywiaeth a nwyon tŷ gwydr. Byddai cylchfan yn sicrhau'r gwelliant mwyaf o ran diogelwch a dibynadwyedd amser teithio, ond nid yw'n ymddangos bod hyn yn ymarferol yn y lleoliad. Felly, byddai cyffordd groesgam yn well gan y byddai'n achosi'r aflonyddwch lleiaf yn	2

Sylw	Nifer
ystod y cyfnod adeiladu, gyda llwybr newydd byr i'r B4313 ymuno â'r A40 ychydig i'r gorllewin o'i safle presennol.	
Mae angen ffordd ddeuol / buaswn yn ffafrio cylchfan fel y gallai ffordd ddeuol gael ei hadeiladu o hyd.	2
Byddai gwell trafndiaeth gyhoeddus yn hybu iechyd a chymdeithas fwy cyfartal, yn hybu cymunedau cydlynol ac yn gyfrifol yn fyd-eang / fodd bynnag, ni fyddai trafndiaeth gyhoeddus ar ei phen ei hun yn datrys y materion diogelwch.	2
Mae 2A yn well.	1
Dylai cyffordd Croesffordd Maencoch gael ei hailddylunio law yn llaw â therfyn cyflymder is.	1
Sicrhau darpariaeth dda ar gyfer beicio trwy gynnwys lonydd ar wahân wrth gylchfan Penblewin.	1
Peidiwch â'i wneud.	1
Mae angen arwyddion a marciau lonydd clir wrth gylchfan newydd Penblewin.	1
Y sefyllfa bresennol	
Mae gosodiad presennol Croesffordd Maencoch yn beryglus, yn enwedig i'r rhai nad ydynt yn ymwybodol o'r peryglon posibl.	2
Mae'n achos pryder i mi fod ein mab yn beicio ar hyd y ffordd hon.	1
Arall	
Ni allaf ddeall sut y gallai'r cynigion gynnwys teithio llesol yn ddiogel e.e. marchogaeth ar hyd y brif gefnffordd.	1
Cyn i opsiwn a ffeirir gael ei ddewis, mae angen i fanylion arolygon traffig sy'n ymwneud ag Arberth gael eu cyhoeddi a chyfle arall ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus gael ei ddarparu.	1
Mae'n ymddangos bod mwy o feddwl wedi cael ei roi i hygyrchedd i Hwlffordd, y porthladdoedd fferi ac Aberdaugleddau nag i breswylwyr Arberth.	1

I grynhoi, mae'r pwyntiau allweddol a godwyd wrth ymateb i Gwestiwn 4 fel a ganlyn:

1. Mynegodd llawer o'r ymatebwyr eu cefnogaeth i Opsiwn 2B a dileu cyffordd Croesffordd Maencoch, a dywedodd llond dyrnaid o'r ymatebwyr yr hoffent weld y gwaith yn dechrau cyn gynted â phosibl.
2. Mae pryder amlwg ynglŷn ag effaith y cynigion ar lif traffig yn Arberth. Fodd bynnag, cyfeiriodd un o'r ymatebwyr at y gwelliannau posibl i lif traffig o ystyried y cysylltedd gwell rhwng y gogledd a'r de yn lleoliad Croesffordd Maencoch.
3. Byddai dileu cyffordd Croesffordd Maencoch yn cynyddu hyd rhai siwrneiau, a chyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at hyn fel effaith negyddol.
4. Cyfeiriodd nifer o'r ymatebwyr at effaith niweidiol bosibl y cynllun ar yr amgylchedd, gan gynnwys ar y dirwedd ac allyriadau carbon.
5. Roedd opsiynau amgen neu welliannau a awgrymwyd yn cynnwys: arafu traffig wrth gyffordd Croesffordd Maencoch; ffordd ymuno/ymadael sy'n darparu mynediad i'r A40 tua'r gorllewin, neu tua'r gorllewin a'r dwyrain; newid yr amcanion i ganolbwyntio ar faterion lleol a'r amgylchedd; ac adeiladu ffordd ddeuol. Roedd sylw arall hefyd yn

cyfeirio at sicrhau bod darpariaeth feicio'n cael ei hintegreiddio yng nghylchfan Penblewin.

6. Mae diogelwch yn bryder allweddol i lawer o'r ymatebwyr ac roedd eu sylwadau'n cynnwys bod y cynigion yn cynnig gwelliannau posibl i ddiogelwch preswylwyr y cartref gofal a beicwyr, tra bod sylwadau eraill yn ymwneud â'r posibilrwydd o fwy o ddamweiniau yn sgil mwy o gyfleoedd i oddiweddyd.
7. Dywedodd un o'r ymatebwyr yr hoffai weld canlyniadau arolygon traffig yn ymwneud ag effaith y cynigion ar Arberth, ac ymgynghoriad arall ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi, cyn i lwybr a ffeirir gael ei ddewis.
8. Dywedodd un o'r ymatebwyr hefyd ei fod o'r farn bod y cynllun wedi canolbwyntio mwy ar gysylltiadau strategol nag ar faterion sy'n ymwneud ag Arberth, a dywedodd un arall fod y cynllun wedi canolbwyntio gormod ar fodurwyr yn hytrach na thrafnidiaeth gyhoeddus.

Cwestiynau am yr iaith Gymraeg

Cwestiwn A: Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai Gwelliannau'r A40 Penblewin i Groesffordd Maencoch yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Pa effeithiau allai fod, yn eich barn chi? Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol:

1. Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn (20) na fyddai unrhyw effaith, neu effaith gyfyngedig, ar yr iaith Gymraeg o ganlyniad i'r cynllun. Roedd sylwadau'n cynnwys:
 - a) Tybir y bydd arwyddion y cynllun yn ddwyieithog.
 - b) Ni fyddai effaith ar y dysgwyr sy'n teithio i'r dosbarthiadau Cymraeg yn Nhŷ Bloomfield.
 - c) Byddai'r cynllun yn cynnal y gallu i deithio i leoliadau eraill i siarad Cymraeg.
 - ch) Nid yw Arberth yn ardal lle y siaredir llawer o Gymraeg ac felly ni ddisgwylir unrhyw effaith.
2. Dywedodd pump o'r ymatebwyr yn benodol nad oeddent yn gweld y cysylltiad rhwng y cynllun a'r iaith Gymraeg; dywedodd dau o'r ymatebwyr nad oedd yn fater pwysig a dywedodd un o'r ymatebwyr nad oedd yn gwybod.
3. Dywedodd tri o'r ymatebwyr y byddai'r cynllun yn gwella cysylltedd rhwng y gogledd a'r de rhwng yr A40, gan gysylltu cymunedau sy'n siarad Cymraeg a Saesneg.
4. Mynegwyd ambell bryder ynglŷn â'r iaith Gymraeg; dywedodd un o'r ymatebwyr fod arwyddion dwyieithog yn ddryslud a dywedodd un arall y gallant fod yn drwsgl os na chânt eu hystyried yn ofalus.
5. Dywedodd un o'r ymatebwyr y dylai'r arwyddion newydd ddangos y Gymraeg a'r Saesneg mewn lliwiau gwahanol, gyda'r iaith a ddefnyddir gan y mwyafrif yn gyntaf.

Y rheswm am hyn yw oherwydd nad oes digon o amser i ddarllen y neges yn aml wrth deithio heibio.

6. Dywedodd un o'r ymatebwyr y byddai'n fwy anodd cyrraedd gwersi Cymraeg yng Nghanolfan Gymunedol Bloomfield yn sgil Opsiwn 2B. Fel y nodwyd uchod, dywedodd ymatebwr arall nad oedd yn credu y byddai unrhyw effaith.
7. Roedd un o'r ymatebwyr yn credu y dylai'r holl arwyddion fod yn Gymraeg a dywedodd nad oedd yn disgwyl i arwyddion fod yn Saesneg yng Nghymru.
8. Dywedodd un o'r ymatebwyr nad yw ymwelwyr yn rhoi sylw i'r Gymraeg gan eu bod yn credu ei bod yn hen ffasiwn.

Cwestiwn B: Eglurwch hefyd sut ydych chi'n credu y gall y polisi arfaethedig Gwelliannau'r A40 Penblewin i Groesffordd Maencoch gael ei lunio neu ei newid er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol:

1. Dywedodd naw o'r ymatebwyr 'dim o gwbl' neu 'dim' wrth ymateb i Gwestiwn B. Dywedodd chwe ymatebwr arall nad oedd ganddynt unrhyw syniadau a dywedodd un ymatebwr ychwanegol nad oedd hyn yn fater pwysig.
2. Dywedodd tri o'r ymatebwyr nad oeddent yn deall perthnasedd y cwestiwn, ac ychwanegwyd sylw bod popeth wedi cael ei wneud yn ddwyieithog.
3. Dywedodd tri o'r ymatebwyr hefyd y byddai'r cysylltedd gwell rhwng y gogledd a'r de yn annog siaradwyr Cymraeg o fannau i'r gogledd o'r A40 a siaradwyr Saesneg o'r de i gymysgu mwy, ac y byddai'n annog defnydd o'r Gymraeg.
4. Dywedodd dau o'r ymatebwyr y dylai'r holl arwyddion fod yn ddwyieithog. Dywedodd ymatebwr arall y dylai'r arwyddion fod yn amlwg a sicrhau bod gan siaradwyr Saesneg ddigon o amser i ddilyn yr arwyddion yn Saesneg; dywedodd ymatebwr arall y dylai arwyddion ddangos y Gymraeg mewn un lliw a'r Saesneg mewn lliw arall, gyda'r iaith a ddefnyddir gan y mwyafrif yn gyntaf.
5. Roedd awgrymiadau ar gyfer gwelliannau yn cynnwys gwell cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus rhwng gogledd a de Sir Benfro (un ymatebwr), ac arwyddion newydd i ddangos cysylltiad Arberth â chwedlau'r Mabinogion (un ymatebwr arall).
6. Dywedodd un o'r ymatebwyr fod cynhyrchu deunydd ymgynghori yn Gymraeg a Saesneg yn wastraff arian ac, yn hytrach, y dylai siaradwyr Cymraeg ofyn am gopi os oes angen.

Cwestiwn C: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw'n benodol, defnyddiwch y lle hwn i sôn amdanynt.

Gwnaed y pwyntiau allweddol canlynol:

1. Dywedodd pump o'r ymatebwyr 'nac oes' wrth ymateb.
2. Dywedodd un o'r ymatebwyr fod yr effaith amgylcheddol yn sicr yn drech na threftadaeth ddiwylliannol ac y dylai lles poblogaethau'r presennol a'r dyfodol gael ei ystyried yn gyntaf.
3. Sicrhau eglurder a gwelededd wrth gylchfan Penblewin, oherwydd bod pryder y gallai'r ddau fan ymuno/ymadael gynyddu gwrthdrawiadau araf (un ymatebwr).
4. Sicrhau bod mynediad uniongyrchol o Redstone Road i Gaerfyrddin a Hwlfordd (un ymatebwr).
5. Pryder ynghylch effaith traffig trwy Arberth ac awgrymu gwelliannau yn y dref (un ymatebwr).
6. Cyfeiriodd un ymatebwr at y problemau traffig sy'n cael eu hachosi wrth i geir orfod parcio ar y ffordd ger eu cartrefi.
7. Mae problemau traffig yn Arberth lle mae'n rhaid i bobl barcio eu ceir ar y ffordd y tu allan i'w cartrefi (un ymatebwr).
8. Cynnwys colofnau rhesog ar Bont Maencoch (un ymatebwr).
9. Dylai'r ymgynghoriad fod wedi cynnwys manylion effaith pob opsiwn ar lifoedd traffig yn Arberth, gan gynnwys ymatebion yr Awdurdod Priffyrdd iddynt (un ymatebwr).
10. Bydd bywydau'n cael eu hachub trwy ddileu'r gyffordd (un ymatebwr).
11. Ffaffio Opsiwn 1A (un ymatebwr).
12. Gwella mwyafrif y ffyrdd yn Sir Benfro (un ymatebwr).
13. Ystyried sut i fynd i'r afael ag effaith clefyd coed ynn ar y dirwedd wrth ailblannu coed (un ymatebwr).
14. Gwella'r arwyddion ar gyfer traffig busnes (un ymatebwr).

Ymatebion eraill

Nid oedd rhai ymatebion a dderbyniwyd trwy e-bost yn rhoi ymateb strwythuredig ar ffurf cwestiwn ac ateb. Felly, crynhoir yr ymatebion hynny yn yr adran ar wahân hon.

1. Yn yr un modd â'r ymatebion a nodwyd yn flaenorol, dywedodd pedwar o'r chwe ymateb y byddai Opsiwn 2B yn golygu llwybrau teithio hwy yn cynnwys cerbydau nwyddau trwm (HGVs). Dywedodd tri ymatebwr hefyd eu bod yn pryderu ynghylch problemau traffig yn Arberth o ganlyniad i'r cynllun.
2. Mynegwyd pryder hefyd ynghylch dileu cyffordd Croesfordd Maencoch a bod heb gysylltiad â'r A40 o Hwlfordd.
3. Nodwyd argymhellion ar gyfer cysylltiad â'r A40, gan gynnwys awgrym ynglŷn â chylchfan, cyffordd wyrgam wedi'i hailffurfio a chyffordd rhwng Sodston House Lodge a Fferm Maencoch.
4. Roedd sylw arall yn ymwneud â'r awydd am fwy o arosfannau bysiau, er enghraifft y tu allan i Faes yr Odyn. Dywedodd yr ymatebwr hwn hefyd ei bod yn anodd iawn i bobl ag anabledd sefyll wrth aros am fysiau.

5. Adborth gan Randdeiliaid

Yn ogystal â'r adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus a gynhwyd uchod, bu ymgysylltiad parhaus â nifer o randdeiliaid wrth ddatblygu'r opsiwn, gan gynnwys Cyngor Sir Penfro (CSP), Cyngor Tref Arberth, Sustrans, Comisiwn Dylunio Cymru, Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru (SWTRA), Cadw, Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed (YAD), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a gwleidyddion (Aelodau Seneddol ac Aelodau'r Cynulliad).

Cyfarfu Grŵp Cyswllt Amgylcheddol y prosiect, a oedd yn cynnwys tîm y prosiect, CSP, SWTRA, Cadw, YAD a CNC, yn rheolaidd drwy gydol datblygiad y Cynllun.

Cynhaliwyd ymgysylltiad ychwanegol â CSP trwy gyfarfod ym mis Mai 2019 i gyflwyno'r opsiynau ar y rhestr fer a rhoi cyfle i geisio adborth. Roedd CSP o'r farn bod gan Opsiwn 2B nifer o fanteision dros yr opsiynau eraill, gan gynnwys o ran cysylltedd strategol, dibynadwyedd amser siwrneiau, cyfleoedd goddiweddyd a diogelwch. Mynegwyd pryderon ynglŷn â dileu cyffordd Croesfordd Maencoch, ac argymhellodd CSP y dylai'r effaith bosibl ar draffig o amgylch Arberth gael ei hadolygu. Ystyriodd CSP sut y gallai'r cynigion gysylltu â'i gynlluniau teithio llesol. Cynhaliwyd cyfarfod arall â CSP ym mis Hydref 2019 ynglŷn â'r opsiwn a ffeirir.

Trefnodd Cyngor Tref Arberth a'r gymuned leol gyfarfod i drafod opsiynau llwybr gyda tîm y prosiect ym mis Mehefin 2019. Cynhaliwyd y cyfarfod yng Nghanolfan Gymunedol Tŷ Bloomfield ac roedd oddeutu 35 o bobl o'r gymuned leol yn bresennol. Gwahoddwyd tîm y prosiect i ateb cwestiynau am y cynllun a'r opsiynau arfaethedig. Roedd y pryderon a fynegwyd gan y gymuned leol yn cynnwys effeithiau posibl ar draffig trwy Arberth, ar yr amgylchedd a sŵn, ac ar gartref gofal Blaenmarlais. Cynigiodd y rhai a oedd yn bresennol awgrymiadau, gan gynnwys llwybr gogleddol gyda chylchfan; cyffordd aml-lefel gyda 4 ffordd ymuno/ymadael ac Opsiwn 1B gyda ffordd ymuno tua'r gorllewin o Redstone Road.

Anfonodd y Cynghorydd Sue Rees lythyr ym mis Mai 2019 yn manylu ar ei phryderon ynglŷn â'r cynigion o safbwynt Arberth ar ôl mynychu'r arddangosfa a gynhaliwyd ym mis Mai 2019 yn Nhŷ Bloomfield.

Ym mis Mai 2019, ysgrifennodd y Cynghorydd Vic Dennis erthygl ym mhapur newydd y Narberth and Whitland Observer yn croesawu ymgynghoriad pellach yn rhan o Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd mis Mai 2019 ar ôl i bedwerydd opsiwn gael ei ddatgelu.

Ymgynghorwyd â Sustrans hefyd, a roddodd adborth ynglŷn â'r opsiynau yn Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd mis Mai. Roedd eu pryderon yn ymwneud ag effeithiau'r cynllun a'r amcanion. Nododd Sustrans hefyd nad oedd y cynigion yn cynnwys cynigion ar gyfer gwelliannau i deithio llesol. Yna, rhoddwyd gwybod bod gwelliannau teithio llesol wrthi'n cael eu datblygu ac y byddai cynigion manwl yn cael eu ffurfio'n ddiweddarach.

Mae tîm y prosiect wedi rhoi cyflwyniadau i Gomisiwn Dylunio Cymru drwy gydol y broses o ddatblygu'r cynllun, ac wedi ymgysylltu â nhw. Bwriedir cynnal y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr 2019 i drafod cynigion yr opsiwn a ffefrir.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Simon Hart AS ym mis Medi 2019. Cynigiodd Simon Hart AS ei gefnogaeth i'r cynllun mewn egwyddor fel ychwanegiad i'w groesawu i welliannau'r A40 Llanddewi Felffre. Roedd materion a oedd yn achos pryder ynglŷn â'r cynigion yn cynnwys yr effaith bosibl ar breswylwyr lleol, gan gynnwys yr henoed yng Nghartref Gofal Blaenmarlais, a'r effaith bosibl ar draffig yn Arberth.

6. Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol

Crynoir y pwyntiau allweddol a fynegwyd yn Ymgynghoriad Awst – Medi 2019 isod:

1. Cynigiodd llawer o'r ymatebwyr eu cefnogaeth i Opsiwn 2B (fel a fynegwyd hefyd yn ystod y ddwy Arddangosfa Gwybodaeth i'r Cyhoedd a gynhaliwyd yn flaenorol). Roedd llawer o'r ymatebwyr yn cefnogi'r opsiwn yn gyffredinol, ond hoffent weld newidiadau, gwelliannau a/neu ychwanegiadau i ddyluniad presennol y cynnig. Mynegodd nifer o'r ymatebwyr eu gwrthwynebiad i'r cynllun hefyd.
2. Pryder allweddol a fynegwyd oedd yr effaith y byddai Opsiwn 2B yn ei chael ar draffig yn Arberth. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr fod problemau traffig eisoes yn bodoli yn y dref ar adegau penodol ac y byddai'r rhain yn cael eu gwaethygu trwy ddileu'r cysylltiad â'r A40 i'r gogledd o Redstone Road. Mynegwyd pryder penodol ynglŷn â'r problemau y byddai cerbydau mawr yn eu hachosi i lif traffig trwy Arberth. Dywedodd dau ymatebwr y gallai arwyddion da liniaru'r mater hwn trwy gyfeirio gyrwyr HGV i ddefnyddio'r A40 bresennol.
3. Roedd llawer o'r ymatebwyr eisiau i'r cysylltiad â'r A40 (i'r gogledd o Redstone Road) gael ei gadw ar ryw ffurf. Roedd yr opsiynau a awgrymwyd i gyflawni hyn yn cynnwys ffordd ymuno/ymadael orllewinol, cylchfan neu gyffordd groesgam. Byddai hyn yn golygu y gellid cynnal cysylltedd â'r gefnffordd ac yn osgoi achosi problemau traffig trwy Arberth, yn ogystal ag osgoi creu llwybrau hwy ar gyfer rhai siwrneiau. Roedd rhai yn credu hefyd y gallai dileu'r gyffordd achosi effeithiau niweidiol ar fusnesau lleol.

4. I'r gwrthwyneb, mynegodd llawer o'r ymatebwyr eu cefnogaeth i ddileu cyffordd Croesffordd Maencoch.
5. Mynegwyd pryderon ynglŷn â'r effaith ar eiddo preswyl a'r cartref gofal. Roedd y pryderon hyn yn ymwneud â'r effaith ar werth eiddo, amwynder, sŵn, llygredd a golygfeydd. Cyfeiriodd ambell ymatebwr at yr effaith ar yr amgylchedd fel pryder cyffredinol, gan gynnwys pryderon ynglŷn â mwy o allyriadau carbon o ganlyniad i siwrneiau hirach.
6. Dywedodd rhai o'r ymatebwyr y dylid canolbwyntio mwy ar ymateb i broblemau traffig Arberth a gwella'r rhwydwaith trafndiaeth.
7. Roedd cefnogaeth gyffredinol i welliannau teithio llesol ar gyfer beicio, cerdded a marchogaeth. Roedd awgrymiadau'n cynnwys: ymgorffori darpariaeth teithio llesol ar hyd yr A40 bresennol, darparu mwy o lwybrau beicio, cerdded a marchogaeth, sicrhau bod y bont arfaethedig yn ddigon llydan i holl ddefnyddwyr teithio llesol; lleihau'r terfynau cyflymder ar yr A40 bresennol a thrwy Arberth, darparu gwelliannau wedi'u hanelu at y rhai â namau symudedd. Crybwyllwyd gwelliannau teithio llesol eraill a gynlluniwyd yn yr ardal, a byddent yn gyfle i gydgyssylltu'r cynigion.
8. Dywedodd un ymatebwr y dylai canlyniadau arolygon traffig gael eu cyhoeddi ac y dylid ymgysylltu â'r cyhoedd yn dilyn hyn a chyn dewis opsiwn a ffefrir.
9. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn credu na fyddai'r cynllun yn cael unrhyw effaith ar yr iaith Gymraeg, neu effaith gyfyngedig arni, neu nid oeddent yn gweld cysylltiad rhwng y cynllun a'r iaith Gymraeg. Dywedodd rhai ymatebwyr y byddai'r cynllun yn gwella cysylltedd rhwng y gogledd a'r de trwy'r A40, gan gysylltu cymunedau Cymraeg a Saesneg eu hiaith.
10. Gwnaed amrywiaeth o sylwadau ynglŷn ag arwyddion a'r Gymraeg, gan gynnwys awgrymiadau y dylai arwyddion ddangos y Gymraeg mewn un lliw a'r Saesneg mewn lliw arall oherwydd, fel y mae ar hyn o bryd, nid oes digon o amser i ddarllen yr arwyddion weithiau.

Ystyrir bod yr arddangosfeydd wedi cyflawni'r amcanion canlynol a nodwyd yn rhan o'r arddangosfa:

11. Denu cynifer o bobl â phosibl i'r ymgynghoriad, o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd a diddordebau.
12. Rhannu ein negeseuon allweddol ynglŷn â'r prosiect, yn agored ac yn onest, a rhoi portread teg a chytbwys ohono.
13. Lleihau gwrthwynebiad posibl i'r prosiect trwy esbonio'r angen am y cynigion, mynd i'r afael ag unrhyw bryderon, ymholiadau neu gamdybiaethau, a thawelu meddwl pobl.
14. Rhoi cyfle i bobl gyflwyno unrhyw adborth i Lywodraeth Cymru, a'u hannog i wneud hynny.
15. Addysgu pobl am y broses sy'n ofynnol i symud y prosiect yn ei flaen.

7. Y Camau Nesaf

Yn dilyn yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ac ar ôl dadansoddi'r ymatebion a gynhwysir yn yr adroddiad hwn, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth bellach i'r canfyddiadau ac yn diwygio'r cynigion yn unol â hynny.

Yna, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu penderfynu ar lwybr a ffefrir, a fydd yn cael ei gyhoeddi. Gyda hyn, bydd hysbysiad statudol a adwaenir fel TR 111 yn cael ei gyflwyno o dan Erthygl 19 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Gweithdrefn Rheoli Datblygu) (Cymru) 2012 (fel y'i diwygiwyd). Bydd hwn yn diogelu llinell y ffordd arfaethedig, ac yn ei gwarchod rhag datblygu.

Rhoddir llinell amser a ragwelir ar gyfer datblygu'r cynigion isod:

Gweithgarwch	Dyddiadau Allweddol	Disgrifiad
Cyhoeddi'r Llywybr a Ffefrir	Yr Hydref 2019	Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, byddwn yn ystyried yr holl adborth ac yn cynnal arfarniadau pellach o'r opsiynau er mwyn helpu i nodi opsiwn a ffefrir. Byddai llywybr a ffefrir yn cael ei gyhoeddi.
Cyhoeddi Gorchymynion drafft a Datganiad Amgylcheddol	Dechrau 2020	Os bydd angen, bydd y rhain yn pennu'r tir fyddai ei angen i adeiladu'r Cynllun a'r gwaith lliniaru amgylcheddol cysylltiedig. Byddai'n nodi manylion mynedfeydd lleol a darpariaeth Mynedfeydd Preifat. Yna, caiff y cyhoedd gyfle i wrthwynebu neu gefnogi'r Cynllun yn ffurfiol, neu awgrymu cynnig amgen.
Ymchwiliad Cyhoeddus Posibl	Haf 2020	Os bydd angen Ymchwiliad Cyhoeddus, byddai Arolygydd annibynnol yn gwrandao ar dystiolaeth, gerbron y cyhoedd, gan bartion â buddiant a rhanddeiliaid. Byddai'r Arolygydd yn gwneud argymhelliad i Weinidogion Cymru ar sut i fwrw ymlaen.
Penderfyniad Gweinidogion Cymru i wneud y Gorchymynion	Dechrau 2021	Byddai Gweinidogion Cymru yn penderfynu p'un ai gwneud Gorchymynion Statudol i fwrw ymlaen ag adeiladu'r Cynllun.
Penodi Contractwr Dylunio ac Adeiladu	Dechrau 2021	Byddai contractwr yn ymgymryd â dyluniad manwl ac adeiladu'r Cynllun.
Dechrau Adeiladu ar y Safle	Haf 2021	Byddai'r gwaith adeiladu'n dechrau.
Gwelliannau'r A40 yn Agor	Diwedd 2022	Byddai'r ateb a ffefrir yn cael ei roi ar waith a'i agor i'r cyhoedd.

Atodiad A: [Ymgynghoriad gwelliannau i'r A40 rhwng Penblewin a Redstone Cross](#)

Atodiad B: Paneli arddangos – [Gwelliannau'r A40 Penblewin i Groesffordd Maencoch arddangosfeydd gwybodaeth i'r cyhoedd: Medi 2019](#)